

Trosolwg

Mae'r safon galwedigaethol cenedlaethol hwn yn trafod adolygu lluniadau a gynhyrchwyd gan ddylunwyr. Rhaid i'r lluniadau fodloni'r gofynion technegol sy'n ofynnol ar gyfer y dyluniad. Mae'n golygu cael mynediad at wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau a'i defnyddio i wirio cywirdeb a'i bod yn cydymffurfio â'r gofynion dylunio. Rhaid i'r dyluniadau, a'r fformat y maent yn ymddangos ynddo, ddefnyddio'r confensiynau a ddefnyddir yn gyffredin yn y diwydiannau cyfleustodau.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Adolygu cydymffurfiaeth y dyluniad gan ddefnyddio safonau'r diwydiant cyfleustodau a gwybodaeth dechnegol

1. dod o hyd i wybodaeth a'i chasglu o'r safonau cyfredol a'r wybodaeth dechnegol a ddefnyddir yn y diwydiannau cyfleustodau
2. defnyddio'r wybodaeth a gesglir i bennu'r nodweddion sydd eu hangen ar gyfer lluniadau
3. defnyddio'r wybodaeth a gesglir i bennu'r deunyddiau, fformatau a'r confensiynau y gellir eu defnyddio Adolygu lluniadau technegol manwl
4. adolygu gofynion y lluniadau manwl
5. storio data cyfredol er mwyn cadw'r wybodaeth dechnegol yn ddiogel
6. ymgysylltu â chydweithwyr a chleientiaid sydd ag arbenigedd technegol a all ddarparu cymorth pan fydd angen
7. delio ag unrhyw broblemau'n ymwneud â'r wybodaeth dechnegol a'r ffordd o'i dehongli yn brydlon ac yn effeithiol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cyffredinol

1. gofynion deddfwriaethol y DU ar gyfer iechyd a diogelwch a'r amgylchedd, safonau, cyfarwydddebau a chanllawiau, ac arferion gwaith
2. safonau'r DU, llawlyfrau gweithdrefnau, a pharmedrau gweithredol
3. egwyddorion dylunio, gan gynnwys data dylunio o'r fersiynau diweddaraf o safonau'r DU
4. arferion gwaith a chanllawiau'r diwydiant a dderbynnir yn y diwydiant cyfleustodau
5. egwyddorion a phrosesau peirianeg y rhwydwaith gyfleustodau
6. strwythur a chynnwys manylebau cleientiaid
7. strwythur a chynnwys manylebau gweithgynhyrchu

Penodol

8. dulliau cyfathrebu a gweithdrefnau cyflwyno adroddiadau'r cwmni
9. sut i ddethol data, gan gynnwys llwythi, hydroedd, cynlluniau, niferoedd, deunyddiau, graddfeydd, dimensiynau, unedau, cyfeiriadau cod, safonau
10. sut i ddewis nodweddion i'w cynnwys mewn gwybodaeth dechnegol
11. sut i ddefnyddio lluniadau electronig ac ar bapur
12. sut i ddefnyddio systemau dogfen a storio gwybodaeth dechnegol
13. y safonau, deunyddiau, fformatau a chonfensiynau a ddefnyddir ar gyfer lluniadau'r rhwydwaith gyfleustodau
14. y mathau a'r ffynonellau o'r wybodaeth dechnegol sydd eu hangen ar gyfer lluniadau, gan gynnwys manylebau, bwletinau gwneuthurwyr a gwerthwyr, codau a thafleini data

Ymddygiadau

Rydych yn gweithio mewn ffordd sy'n:

1. ymateb yn gadarnhaol ac yn greadigol i rwystrau
2. ymfalchïo mewn darparu gwaith o ansawdd uchel

EUSMUND8

Defnyddio gwybodaeth dechnegol i adolygu lluniadau manwl y rhwydwaith gyfleustodau



Datblygwyd gan	Energy & Utility Skills
Dyddiad cymeradwyo	01 Rhag 2017
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Rhag 2020
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Energy & Utility Skills
RCU gwreiddiol	MUND8
Galwedigaethau perthnasol	Peirianegol, Adeiladu, Drafftwyd ac Arolygwyr Adeiladu, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt ym maes Dylunio, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig
Cyfes/Set	Dylunio Rhwydweithiau Aml-Gyfleustod
Geiriau Allweddol	manylebau, fformatau, confensiynau
